

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Hydref 2011

Dyma'r papur cyntaf mewn cyfres chwarterol o bapurau ymchwil sy'n rhoi trosolwg ystadegol o gynnydd y byrddau iechyd lleol a'r GIG yng Nghymru yn ôl targedau amser Llywodraeth Cymru rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT). Mae'r papur yn ystyried perfformiad y byrddau iechyd lleol a'r GIG yng Nghymru yn ôl y targed atgyfeirio a thriniaeth 26 wythnos, ac aiff ymlaen i gymryd golwg ar berfformiad fesul arbenigedd ac i ystyried perfformiad yn yr arbenigedd trawma ac orthopedeg.

Mae'r papur hefyd yn cymryd golwg ar berfformiad yn ôl y targedau ers mis Hydref 2010, pan fu nifer o newidiadau yn y modd y caiff amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth eu mesur.

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiuedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth
yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

Hydref 2011

Gareth Thomas

Rhif dogfen: 11/059

Gwasanaeth
Ymchwil



Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	1
2. Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth ym mis Gorffennaf 2011	3
3. Perfformiad fesul arbenigedd ym mis Gorffennaf 2011	6
4. Perfformiad o ran Atgyfeirio a Thriniaeth ers mis Hydref 2010.....	10
Atodiad: Nodiadau.....	13

Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol

1. Cyflwyniad

Dyma'r papur cyntaf mewn cyfres chwarterol o bapurau ymchwil sy'n rhoi trosolwg ystadegol o gynnydd y byrddau iechyd lleol a'r GIG yng Nghymru yn ôl targedau amser Llywodraeth Cymru rhwng atgyfeirio a thriniaeth (RTT). Y cyfnod atgyfeirio a thriniaeth yw'r amser rhwng yr atgyfeiriad gan Feddyg Teulu neu ymarferydd meddygol arall a phan fydd y claf yn cyrraedd yr ysbyty ar gyfer triniaeth gan y GIG yng Nghymru.¹ Mae'r llwybr rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cynnwys amser a dreulir yn aros am apwyntiadau ysbyty, profion, sganiau neu driniaethau neu archwiliadau eraill sy'n ofynnol cyn y bo triniaeth yn dechrau Targed Llywodraeth Cymru yn 2011-12 ar gyfer amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth yw sicrhau mynediad prydlon at wasanaethau a gynlluniwyd **fel bod o leiaf 95 y cant o gleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth wedi aros llai na 26 wythnos o ddyddiad derbyn y llythyr atgyfeirio yn yr ysbyty.**²

Bydd Llywodraeth Cymru'n mesur cynnydd yn ôl y targed hwn bob mis, a'r ffigurau a ddefnyddir i fesur cynnydd yw'r **ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd y mis**. Felly, er bod Llywodraeth Cymru hefyd yn cyhoeddi ystadegau mewn cysylltiad â chleifion a gaiff eu trin yn ystod pob mis, mae'r cyhoeddiad hwn yn canolbwyntio ar y rhai sy'n aros i ddechrau eu triniaeth ar ddiwedd y mis.

Mae'r targed atgyfeirio a thriniaeth cyffredinol yn berthnasol i'r mwyafrif o atgyfeiriadau i ysbytai'r GIG am driniaeth; ond, mae nifer o eithriadau, **yn cynnwys atgyfeiriadau am ofal lliniarol, atgyfeiriadau i'r gwasanaethau iechyd meddwl mewn ysbyty ac atgyfeiriadau am wasanaethau deintyddiaeth fel claf mewmol/ achos dydd.**³ Yn ogystal, mae gan rai triniaethau fel canser, eu targedau penodol eu hunain, ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn y targed atgyfeirio a thriniaeth cyffredinol. Er bod y targed rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer y galon wedi'i ddiffinio'n wahanol i weddill y targedau, mae datganiad ystadegau misol Llywodraeth Cymru ar RTT yn cynnwys ffigurau RTT y galon yn ei ffigurau cyffredinol, ac felly mae'r cyhoeddiad hwn yn gwneud yr un peth.⁴ Mae dadansoddiad manylach o'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros am driniaeth ar y

¹ Llywodraeth Cymru, [Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth GIG Cymru - Gorffennaf 2011](#), 8 Medi 2011 [fel ar 8 Medi 2011]

² Ibid.

³ Ibid.

⁴ Ibid.

galon ar gael yng nghyhoeddiad y Gwasanaeth Ymchwil *Clefyd y Galon yng Nghymru*.⁵

Mae'r papur hwn yn ymhelaethu ar ddatganiad ystadegol misol Llywodraeth Cymru sy'n ystyried perfformiad y byrddau iechyd lleol a'r GIG yng Nghymru yn ôl y targed RTT a nodir yn *Rhaglen Lywodraethu*⁶ Llywodraeth Cymru, ac mae'n cymryd golwg ar berfformiad fesul arbenigedd ac yn canolbwyntio ar arbenigedd trawma ac orthopedeg.

⁵ Y Gwasanaeth Ymchwil, [Clefyd y Galon yng Nghymru](#), Hydref 2011

⁶ Llywodraeth Cymru, [Rhaglen Lywodraethu](#), tud 17, 27 Medi 2011 [fel ar 29 Medi 2011]

2. Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth ym mis Gorffennaf 2011

Mae ffigurau diweddaraf Llywodraeth Cymru ar amseroedd cyffredinol rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer mis Gorffennaf 2011. Dengys Tabl 1 y sefyllfa yn ôl y targed atgyfeirio a thriniaeth 26 wythnos ar gyfer pob bwrdd iechyd ac ar lefel Cymru gyfan ym mis Gorffennaf 2011 ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd y mis. Mae ffigurau ar gyfer nifer a chanran y cleifion sydd wedi bod yn aros llai na 36 wythnos i ddechrau triniaeth hefyd wedi'u cynnwys.

Tabl 1: Cyfanswm yr amser aros ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011 (a)

Bwrdd Iechyd Lleol	O dan 26 wythnos		O dan 36 wythnos (b)		Cyfanswm y cleifion sy'n aros am driniaeth
	Nifer y cleifion yn aros	Canran yr holl gleifion yn aros	Nifer y cleifion yn aros	Canran yr holl gleifion yn aros	
Abertawe Bro Morgannwg	75,317	93.8	79,300	98.8	80,291
Aneurin Bevan	75,757	96.6	78,464	100.0	78,464
Betsi Cadwaladr	67,112	93.9	70,016	98.0	71,468
Caerdydd a'r Fro	68,076	88.1	73,323	94.9	77,250
Cwm Taf	31,556	90.0	34,504	98.4	35,065
Hywel Dda	42,252	95.2	44,240	99.7	44,378
Powys	5,135	99.8	5,147	100.0	5,147
Cymru	365,205	93.1	384,994	98.2	392,063


Ffynhonnell: Ystadegau Cymru [016965] a [016964] – a chyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil.

Nodiadau:

- Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth y galon. Caiff amser atgyfeirio a thriniaeth clefyd y galon ei ddiffinio'n wahanol i amser atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler [Adroddiad Ansawdd Llywodraeth Cymru](#) i gael rhagor o fanylion.
- Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y rhai sy'n aros llai na 26 wythnos a'r rhai sy'n aros rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

Dengys Ffigur 1 gynnydd y byrddau iechyd lleol yn ôl y targed amser o 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011.

Ffigur 1: Cynnydd y byrddau iechyd lleol yn ôl y targed o 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011



Ffynhonnell: Ystadegau Cymru [016965] a [016964] – a chyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil.


Nodyn:

- (a) Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth y galon. Caiff amser atgyfeirio a thriniaeth clefyd y galon ei ddiffinio'n wahanol i amser atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler [Adroddiad Ansawdd Llywodraeth Cymru](#) i gael rhagor o fanylion.

- Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011, roedd **93.1 y cant o gleifion yng Nghymru wedi bod yn aros llai na 26 wythnos i ddechrau eu triniaeth.**
- Cyrhaeddodd **byrddau iechyd lleol Aneurin Bevan, Hywel Dda a Phowys** y targed amser o 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer cleifion a oedd yn aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011, gyda dros 95 y cant o gleifion yn aros i gael triniaeth wedi iddynt fod yn aros llai na 26 wythnos.
- O'r byrddau iechyd lleol na chyflawnodd y targed, roedd oddeutu 94 y cant o gleifion a fu'n aros am driniaeth gan **Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr** wedi bod yn aros llai na 26 wythnos, roedd 90 y cant o gleifion **Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf** wedi bod yn aros llai na 26 wythnos, ac oddeutu 88 y cant o gleifion wedi bod yn aros llai na 26 wythnos i gael triniaeth gan **Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro.**

Dengys Ffigur 2 ganran y cleifion a fu'n aros llai na 36 wythnos i ddechrau triniaeth ar ddiwedd Gorffennaf 2011.

Ffigur 2: Canran y cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos i ddechrau triniaeth ar ddiwedd Gorffennaf 2011.



Ffynhonnell: Ystadegau Cymru [016965] a [016964] – a chyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil.

Nodyn:

(a) Mae hyn yn cynnwys cleifion sy'n aros am driniaeth y galon. Caiff amser atgyfeirio a thriniaeth clefyd y galon ei ddiffinio'n wahanol i amser atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler [Adroddiad Ansawdd Llywodraeth Cymru](#) i gael rhagor o fanylion.

- Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011, roedd **98.2 y cant o gleifion yng Nghymru wedi bod yn aros llai na 36 wythnos i ddechrau triniaeth.**
- Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011, ym **Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Lleol Powys**, roedd 100 y cant o'r cleifion a oedd yn aros i gael triniaeth wedi aros llai na 36 wythnos
- O'r byrddau iechyd lleol eraill, mewn pob un ac eithrio **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**, roedd o leiaf 95 y cant o gleifion wedi bod yn aros llai na 36 wythnos i ddechrau triniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011. Ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** roedd, oddeutu 95 y cant o gleifion wedi bod yn aros llai na 36 wythnos.

3. Perfformiad fesul arbenigedd ym mis Gorffennaf 2011

Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi ffigurau bob mis sy'n dangos yr arbenigeddau lle mae cleifion yn aros i ddechrau triniaeth. Gellir gweld darlun o'r perfformiad fesul arbenigedd ym mis Gorffennaf 2011 yn Nhabl 2.

Mae'n bwysig nodi na all Byrddau Iechyd Lleol na'r GIG yng Nghymru lwyddo na methu â llwyddo i gyrraedd targed Atgyfeiriad am Driniaeth ar gyfer arbenigeddau unigol gan fod y targed hwnnw'n berthnasol i berfformiad ar draws yr holl arbenigeddau yn hytrach na rhai unigol. Serch hynny, mae'n ddefnyddiol er mwyn cymharu'r modd y maent yn cyfrannu at berfformiad y GIG yng Nghymru ochr yn ochr â'r targedau cyffredinol ar gyfer Atgyfeiriad am Driniaeth.

Tabl 2: Amser aros i gleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011, fesul arbenigedd (a), (b), (c)

Arbenigedd	Llai na 26 wythnos		Llai na 36 wythnos (a)		Pob claf sy'n dal i aros
	Nifer y cleifion sy'n aros	Canran yr holl gleifion sy'n aros	Nifer y cleifion sy'n aros	Canran yr holl gleifion sy'n aros	
Anaestheteg	631	98.3	642	100.0	642
Meddygaeth Awdiolegol	1,458	100.0	1,458	100.0	1,458
Cardioleg	238	97.5	243	99.6	244
Patholeg Gemegol	216	99.5	217	100.0	217
Niwro-ffisioleg Glinigol	147	100.0	147	100.0	147
Arbenigeddau Meddygaeth Ddeintyddol	555	100.0	555	100.0	555
Dermatoleg	22,379	98.0	22,845	100.0	22,845
Y Glust, y Trwyn a'r Geg	29,228	95.7	30,495	99.9	30,530
Endocrinoleg	2,074	99.8	2,078	100.0	2,078
Gastroenteroleg	13,986	96.1	14,544	100.0	14,550
Meddygaeth Gyffredinol	11,872	96.4	12,313	100.0	12,316
Patholeg Gyffredinol	488	100.0	488	100.0	488
Llawfeddygaeth Gyffredinol	35,397	93.1	37,684	99.2	38,001
Meddygaeth yr Henoed	2,276	98.7	2,305	100.0	2,305
Gynaecoleg	22,728	94.7	23,946	99.8	23,994
Haematoleg (Clinigol)	2,255	98.9	2,280	100.0	2,280
Clefydau Heintus	116	86.6	134	100.0	134
Arenneg	1,488	99.7	1,492	100.0	1,492
Niwroleg	6,309	95.3	6,621	100.0	6,623
Niwrolawfeddygaeth	1,063	81.6	1,210	92.9	1,303
Ophthalmoleg	32,326	92.8	34,584	99.3	34,827
Llawfeddygaeth y Geg	13,328	92.8	14,239	99.2	14,359
Orthodonteg	2,462	96.2	2,554	99.8	2,558
Deintyddiaeth Bediatreg	287	95.7	299	99.7	300
Niwroleg Bediatreg	207	98.6	210	100.0	210
Llawfeddygaeth Bediatreg	702	99.0	709	100.0	709
Pediatreg	6,413	98.6	6,501	100.0	6,501
Rheoli Poen	4,090	95.7	4,271	100.0	4,273
Llawfeddygaeth Blastig	2,473	84.8	2,710	92.9	2,916
Adsefydlu	342	99.7	343	100.0	343
Deintyddiaeth Adferol	2,025	97.2	2,078	99.7	2,084
Rheumatoleg	5,867	96.4	6,075	99.9	6,083
Meddygaeth Thorasig	3,969	97.0	4,088	100.0	4,090
Trawma ac Orthopedeg	53,329	80.4	60,591	91.3	66,343
Wroleg	17,633	93.6	18,736	99.5	18,829
Gwasanaethau Diagnosteg Mynediad Uniongyrchol	22,991	99.9	23,012	100.0	23,012
Gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd Myn	27,593	100.0	27,593	100.0	27,593
Triniaeth y Galon (b)	14,084	96.3	14,505	99.1	14,632
Arall (c)	180	90.5	199	100.0	199
Cyfanswm	365,205	93.1	384,994	98.2	392,063

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru [016965] a [016964], a chyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil

Nodiadau:

- Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y rhai sy'n aros llai na 26 wythnos a'r rhai sy'n aros rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth
- Caiff amser atgyfeirio a thriniaeth clefyd y galon ei ddiffinio'n wahanol i amser atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler [Adroddiad Ansawdd Llywodraeth Cymru](#) i gael rhagor o fanylion.
- Mae arbenigeddau 'eraill' yn cynnwys arbenigeddau lle'r oedd llai na 100 o gleifion yn aros am driniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011. Mae'r rhain yn cynnwys Damweiniau ac Achosion Brys, Llawfeddygaeth Cardiothorasig, Ffarmacoleg Glinigol a Therapiwteg, Meddygon Teulu-Mamolaeth, Meddygon Teulu-Arall, Oncoleg Feddygol, Meddygaeth Liniarol a Radiotherapi.

O'r 38 arbenigedd (ac eithrio'r categori arbenigeddau 'eraill') sy'n cael eu cynnwys yn y targed o 26 wythnos rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol, roedd 95 y cant o gleifion wedi bod yn aros am driniaeth am lai na 26 wythnos ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011 mewn 29 ohonynt.

- O'r 9 arbenigedd lle nad oedd hyn yn wir, roedd llai nag 85 y cant y cleifion wedi bod yn aros am driniaeth am lai na 26 wythnos ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011 mewn 3 ohonynt; niwrolawfeddygaeth, llawfeddygaeth blastig, a thrawma ac orthopedeg.
- O'r 38 arbenigedd (ac eithrio'r categori arbenigeddau 'eraill'), roedd pob claf wedi bod yn aros llai na 36 wythnos am driniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011 mewn 19 ohonynt. Mewn 4 arbenigedd arall roedd nifer fach iawn o gleifion wedi bod yn aros mwy na 36 wythnos, ond o fewn un degolyn roedd 100 y cant o gleifion wedi bod yn aros llai na 36 wythnos.
- O'r 15 arbenigedd lle nad oedd hyn yn wir, roedd o leiaf 99 y cant o gleifion wedi bod yn aros llai na 36 wythnos am driniaeth yn y cyfan ond 3 ohonynt. Eto, yr arbenigeddau hyn oedd niwrolawfeddygaeth, llawfeddygaeth blastig a thrawma ac orthopedeg

Mae cleifion sy'n aros am driniaeth yn yr arbenigedd trawma ac orthopedeg yn cyfateb i oddeutu 17 y cant o'r nifer sy'n aros am driniaeth gan yr arbenigeddau a gaiff eu cynnwys yn y targedau amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth cyffredinol a'r targedau amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer clefyd y galon. Dyma gyfran fwyaf yr holl arbenigeddau a gaiff eu cynnwys yn y targedau. Dengys Tabl 3 y ffigurau ar gyfer arbenigedd trawma ac orthopedeg ar gyfer mis Gorffennaf 2011 ar gyfer byrddau iechyd lleol Cymru. Mae'r ffigurau'n perthyn i achosion lle mai'r bwrdd iechyd lleol yw'r darparwr, er mwyn gallu craffu ar y perfformiad ar lefel leol.

Tabl 3: Amser aros i gleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011, arbenigedd trawma ac orthopedeg (a)

Bwrdd Iechyd Lleol	O dan 26 wythnos		O dan 36 wythnos (a)		Cyfanswm y cleifion sy'n aros am driniaeth
	Nifer y cleifion sy'n aros	Canran y cleifion sy'n aros	Nifer y cleifion sy'n aros	Canran yr holl gleifion sy'n aros	
Abertawe Bro Morgannwg	11,059	86.6	12,345	96.7	12,771
Aneurin Bevan	11,980	89.6	13,369	100.0	13,369
Betsi Cadwaladr	8,799	78.1	9,834	87.2	11,272
Caerdydd a'r Fro	9,402	62.6	11,521	76.7	15,019
Cwm Taf	4,898	81.6	5,747	95.8	6,000
Hywel Dda	6,775	90.5	7,351	98.2	7,488
Powys	416	98.1	424	100.0	424
Cymru	53,329	80.4	60,591	91.3	66,343

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru [016964], a chyfrifiadau y Gwasanaeth Ymchwil.

Nodyn:

(a) Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y rhai sy'n aros llai na 26 wythnos a'r rhai sy'n aros rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

- Ym mis Gorffennaf 2011, roedd o leiaf 95 y cant o gleifion a oedd angen triniaeth yn arbenigedd trawma ac orthopedeg wedi bod yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth ym **Mwrdd Iechyd Lleol Powys**.
- Yn y byrddau iechyd lleol eraill, roedd y perfformiad yn amrywio o oddeutu 90 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth ym **Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda**, i oddeutu 63 y cant o gleifion ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**.
- Ym mis Gorffennaf 2011, roedd pob claf a oedd angen triniaeth yn arbenigedd trawma ac orthopedeg wedi bod yn aros llai na 36 wythnos am driniaeth ym **Mwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Lleol Powys**.
- Yn y byrddau iechyd lleol eraill, roedd y perfformiad yn amrywio o dros 95 y cant o gleifion wedi aros llai na 36 wythnos am driniaeth ym myrddau iechyd lleol **Abertawe Bro Morgannwg, Cwm Taf a Hywel Dda**, i oddeutu 77 y cant o gleifion ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**.

4. Perfformiad o ran Atgyfeirio a Thriniaeth ers mis Hydref 2010

Mae'r rhan hon o'r papur ymchwil yn cymryd golwg fanwl ar y cynnydd yn ôl y targed amser rhwng atgyfeirio a thriniaeth ar lefel Cymru gyfan. Er y bydd papurau yn y dyfodol yn cymryd golwg ar gynnydd dros y flwyddyn galendr ddiwethaf ers y ffigurau diweddaraf a oedd ar gael, bydd y papur hwn yn ystyried y cynnydd ers mis Hydref 2010. Mae hyn oherwydd bod nifer o newidiadau technegol yn y system i fesur targedau atgyfeirio a thriniaeth wedi digwydd ym mis Hydref 2010. Mae'r newidiadau'n ymwneud â rheoli cleifion â llwybrau gofal clinigol cymhleth, cleifion nad ydynt yn dod i apwyntiadau a gytunwyd, a chleifion sy'n gwrthod newid eu meddygon ymgynghorol. Mae hefyd yn ymwneud â rheoli cleifion trawma a gynlluniwyd a chleifion a gaiff eu hatgyfeirio'n uniongyrchol ar gyfer gwasanaethau diagnostig a therapi.⁷

Dengys Tabl 4 y cynnydd yn ôl y targed atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer y GIG yng Nghymru i gleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd pob mis ers mis Hydref 2010 hyd at y ffigurau diweddaraf ar gyfer Gorffennaf 2011. Mae ffigurau o ran nifer a chyfradd y cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos am driniaeth ar ddiwedd pob mis wedi'u cynnwys hefyd.

Tabl 4: Cyfanswm yr amser aros ar gyfer cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth ar ddiwedd bob mis o Hydref 2010 i Orffennaf 2011 (a), (b)

Dyddiad	O dan 26 wythnos		O dan 36 wythnos (b)		Cyfanswm y cleifion sy'n aros am driniaeth
	Nifer y cleifion yn aros	Canran yr holl gleifion yn aros	Nifer y cleifion yn aros	Percentage of all patients waiting	
Hydref 2010	324,581	94.9	339,272	99.2	341,858
Tachwedd 2010	321,249	94.7	336,106	99.1	339,173
Rhagfyr 2010	319,889	93.5	337,968	98.8	341,981
Ionawr 2011	311,168	92.9	329,990	98.6	334,796
Chwefror 2011	317,469	93.1	335,712	98.4	341,008
Mawrth 2011	334,351	94.2	349,914	98.5	355,100
Ebrill 2011	331,018	93.0	350,015	98.4	355,859
Mai 2011	350,162	92.4	372,365	98.2	379,109
Mehefin 2011	360,342	93.0	380,566	98.2	387,436
Gorffennaf 2011	365,205	93.1	384,994	98.2	392,063

Ffynhonnell: Ystadegau Cymru [016965] a [016964], a chyfrifiadau y Gwasanaeth Ymchwil.


Nodyn:

- Caiff amser atgyfeirio a thriniaeth clefyd y galon ei ddiffinio'n wahanol i amser atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler [Adroddiad Ansawdd Llywodraeth Cymru](#) i gael rhagor o fanylion.
- Mae'r ffigurau ar gyfer cleifion sy'n aros llai na 36 wythnos am driniaeth yn cynnwys y rhai sy'n aros llai na 26 wythnos a'r rhai sy'n aros rhwng 26 a 36 wythnos am driniaeth.

⁷ Llywodraeth Cymru, [Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth yn y GIG yng Nghymru – Gorffennaf 2011](#), 8 Medi 2011 [fel ar 8 Medi 2011]

Dengys Ffigur 3 y cynnydd yn ôl y targed rhwng atgyfeirio a thriniaeth o 26 wythnos ar lefel Cymru gyfan i gleifion sy'n aros am driniaeth ar ddiwedd pob mis o fis Hydref 2010 tan fis Gorffennaf 2011.

Ffigur 3: Cynnydd y GIG yng Nghymru yn ôl y targed rhwng atgyfeirio a thriniaeth o 26 wythnos ar lefel Cymru gyfan i gleifion sy'n aros am driniaeth ar ddiwedd pob mis o fis Hydref 2010 tan fis Gorffennaf 2011 (a)



Ffynhonnell: Ystadegau Cymru [016965] a [016964], a chyfrifiadau y Gwasanaeth Ymchwil

Nodyn:


- (a) Caiff amser atgyfeirio a thriniaeth clefyd y galon ei ddiffinio'n wahanol i amser atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler [Adroddiad Ansawdd Llywodraeth Cymru](#) i gael rhagor o fanylion.

Fel y gwelir yn Ffigur 3, nid yw'r GIG yng Nghymru wedi cyrraedd y targed 26 wythnos yn achos o leiaf 95 y cant o gleifion sydd wedi bod yn aros llai na 26 wythnos i ddechrau triniaeth ar ddiwedd unrhyw un o'r 10 mis o fis Hydref 2010 tan fis Gorffennaf 2011.

- **Mae'r perfformiad wedi amrywio o 94.9 y cant o gleifion yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth ym mis Hydref 2010 i 92.4 y cant ym mis Mai 2011.** Roedd gwelliant bach yn nifer y cleifion a oedd yn aros llai na 26 wythnos am driniaeth ar ddiwedd mis Gorffennaf 2011 o gymharu â mis Mehefin 2011, gyda 93.1 y cant o gleifion wedi aros llai na 26 wythnos, o gymharu â 93 y cant ym mis Mehefin 2011.

Dengys Ffigur 4 ganran y cleifion a fu'n aros llai na 36 wythnos i ddechrau triniaeth ar lefel Cymru gyfan ar gyfer pob mis o fis Hydref 2010 tan fis Gorffennaf 2011.

Ffigur 4: Canran y cleifion a fu'n aros llai na 36 wythnos i ddechrau triniaeth ar ddiwedd pob mis o Hydref 2010 tan fis Gorffennaf 2011 (a)



Ffynhonnell: Ystadegau Cymru [016965] a [016964], a chyfrifiadau y Gwasanaeth Ymchwil Nodyn:

(a) Caiff amser atgyfeirio a thriniaeth clefyd y galon ei ddiffinio'n wahanol i amser atgyfeirio a thriniaeth yn gyffredinol; gweler [Adroddiad Ansawdd Llywodraeth Cymru](#) i gael rhagor o fanylion.

- Yn y GIG yng Nghymru roedd 99.2 y cant o gleifion yn aros llai na 36 wythnos am driniaeth ym mis Hydref 2010 o'i gymharu â 98.2 y cant ym mis Mai, Mehefin a Gorffennaf 2011.

Atodiad: Nodiadau

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [Adroddiad Ansawdd ar Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth](#), sy'n cynnwys ystadegau amseroedd aros.

Mae'r adroddiad ansawdd yn cynnwys gwybodaeth am ddiffiniadau a'r meysydd dan sylw, yn ogystal ag agweddau eraill ar ansawdd, fel prydlondeb, perthnasedd a chymaroldeb y gwasanaethau. Ymhlith y materion penodol a godwyd gan Lywodraeth Cymru yn y datganiad ystadegol ar amseroedd atgyfeirio a thriniaeth ar gyfer mis Gorffennaf 2011 y mae gwybodaeth am newidiadau i gyflwyno adroddiadau ar dargedau atgyfeirio a thriniaeth a'r defnydd o amcangyfrifon mewn data byrddau iechyd lleol:⁸

Newidiadau wrth gyflwyno adroddiadau ar amseroedd atgyfeirio a thriniaeth a roddwyd ar waith o fis Hydref 2010

O fis Hydref 2010, bu nifer o newidiadau technegol yn y system i fesur amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth. Mae'r newidiadau'n ymwneud â rheoli cleifion â llwybrau gofal clinigol cymhleth, cleifion nad ydynt yn dod i apwyntiadau a gytunwyd, a chleifion sy'n gwrthod newid eu meddygon ymgynghorol. Mae hefyd yn ymwneud â rheoli cleifion trawma a gynlluniwyd ac â chleifion a gaiff eu hatgyfeirio'n uniongyrchol at wasanaethau diagnostig a therapi

Cyhoeddwyd y manylion yn natganiad Llywodraeth Cymru [Newidiadau Technegol i Reolau Atgyfeirio a Thriniaeth o fis Hydref 2010 ymlaen](#).

Amcangyfrifon

Mae data Sir Benfro ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ar goll o ddata mis Ebrill 2011, ac nid yw'n bosibl rhoi amcangyfrif. Ni chyflwynodd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wybodaeth gyflawn am y cyfnod o fis Medi 2010 tan fis Chwefror 2011, o ganlyniad i fudo cyfrifiadurol System Weinyddu Cleifion Sir Benfro ym mis Medi 2010, a oedd yn atal is-adran Sir Benfro rhag cyflwyno data o gwbl. Felly, mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys data Awst 2010 fel amcangyfrif ar gyfer data is-adran Sir Benfro o fis Medi 2010 tan fis Chwefror 2011

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn cael problemau ers mudo ei System Gweinyddu Cleifion, ac mae hyn yn effeithio ar ei ffigurau ar gyfer cleifion a gafodd eu trin er mis Mawrth (llwybrau gofal wedi cau am resymau ar wahân i dderbyn i'r ysbyty).

⁸ Llywodraeth Cymru, [Amseroedd rhwng Atgyfeirio a Thriniaeth y GIG yng Nghymru - Gorffennaf 2011](#), 8 Medi 2011 [fel ar 8 Medi 2011]